

Diolchgarwch

Yn nhymor y Diolchgarwch eleni mae Cymorth Cristnogol a Tearfund yn ein cyflwyno i rai o'r sefyllfaoedd a'r bobl y maent yn eu gwasanaethu yn enw Crist ac ar ran y bobl sy'n cefnogi eu gwaith.

Thema Diolchgarwch Tearfund yw 'Lleidr yw Newyn'. Mae'n pwysleisio fod newyn yn lladrata gobaith, rhyddid a phob breuddwyd am well byd oddi ar bobl. Trwy haelioni eglwysi ac unigolion mae Tearfund yn estyn cymorth i bobl er mwyn rhoi bywyd a gobaith a photensial i bobl. Ar wefan Tearfund ceir hanes cymunedau mewn gwahanol wledydd, fel pobl Hille Bar yng ngwlad Chad, yng Nghanolbarth Affrica y mae'r elusen yn cydweithio â hwy i gredu gwell amodau byw.

Bwrlwm

Cynhelir Bwrlwm yn festri Bethlehem, Talybont am 2.15 o'r gloch ddydd Iau, Hydref 19. Croeso cynnes i chi alw draw am banded a sgwrs.

Cyhoeddiadau

CEFNYWAUN AC EBENESER

Dydd Sul, Hydref 15: Gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog. Bydd hon yn oedfa Gymun.

Y mis nesaf - Deiniolen

Hydref 8

5.00 p.m. - Y Parchg Eifion W Williams

Hydref 15

5.00 p.m. - Y Gweinidog

Hydref 22

5.00 p.m. - Y Parchg Reuben Roberts

CAPEL COCH A NANT PADARN

Dydd Mawrth, Hydref 10: Bore Coffi am 10.30 o'r gloch.

Nos Wener, Hydref 13: CIC am 7.00 o'r gloch.

Dydd Sul, Hydref 15: Gwasanaethir am 10.00 o'r gloch gan Mr Euron Hughes ac am 5.00 o'r gloch gan y Parchg Euros Wyn Jones. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch.

CARMEL

Nos Wener, Hydref 13: Dwylo Prysus am 6.30 o'r gloch.

Dydd Sul, Hydref 15: Bydd yr Ysgol Sul am 10.30 o'r gloch a gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Parchg Dylan Rhys Parry, Llandudno.

BETHLEHEM

Dydd Sul, Hydref 15: Bydd yr Ysgol Sul am 10.00 o'r gloch a gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Parchg Huw John Hughes, Porthaethwy.

REHOBOTH

Dydd Sul, Hydref 15: Ni fydd oedfa.

CYNLLUN EFE

Nos Lun, Hydref 23: Am 7.00 o'r gloch yn Capel Coch bydd Cyfarfod Comisiynu Catrin Hampton yn Weithiwr newydd Cynllun Efe.

Y mis nesaf - Llanberis

Hydref 8

10.00 a.m. - Y Gweinidog

11.15 a.m. - Ysgol Sul

5.00 p.m. - Y Gweinidog

Hydref 15

10.00 a.m. - Mr Euron Hughes

11.15 a.m. - Ysgol Sul

5.00 p.m. - Y Parchg Euros Wyn Jones

Hydref 22

10.30 a.m. - Oedfa Deulu



Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Fro'r Llechen Las
Rhif 743: 08 Hydref, 2017

Cadw'r ddeddf

filynnau o bobl yr Unol Daleithiau, mae unrhyw newid i'r deddfau sy'n galluogi pobl i gael gwn yn anathema am fod cyfansoddiad y wlad yn rhoi'r hawl i bawb i fod yn berchen ar wn.

Pa fath o wlad? Y math o wlad sy'n mynnu bod eu deddfau'n gyfiawn, ac na ddylai neb eu herio. Yr unig ddeddf berffaith yw deddf Duw, a geir yn glir yn y Deg Gorchymyn ac a grynhoir yn y ddau orchymyn i garu Duw ac i garu cymydog. Gan bobl y lluniwyd pob deddf gwlad; deddfau ydynt sydd felly ar eu gorau'n amherffaith ac ar eu gwaethaf yn anghyfiawn. Ynfydrwydd yw gwrthod trafod newid deddfau sy'n ymwneud â gwn, fel petai'r deddfau'n gysegredig. Roedd y refferendwm yn Catalunya'n 'anghyfreithlon' nid am ei fod yn ddrwg ynddo'i hun ond am fod Llywodraeth Sbaen wedi deddfu'n benodol i atal unrhyw ran o'r wlad rhag ceisio annibyniaeth.

Fe gawsom gan Dduw ddeddf berffaith i'w hanrhydeddu a'i chadw. Fe wŷr pob Cristion am ei fethiant i wneud hynny mor aml; ond fe wŷr hefyd fod maddeuant trwy Grist am y methiant hwnnw. Mae'r maddeuant yn ei gymell i fwy o ymdrech i ufuddhau i'r ddeddf honno. Fe gawsom hefyd er ein lles ddeddf gwlad; ond peth peryglus yw cymryd yn ganiataol bod pob deddf o'r fath yn gyfiawn a theg. Oni ddylai pobl wâr, yn Sbaen ac America a phobman arall, fod yn ddigon dewr i gwestiynu ac i herio pob deddf sy'n amlwg yn annoeth ac anghyfiawn?

Fore Sul diwethaf, anogaeth i weddio dros Gatalunya a gafwyd yn *Gronyn* ar ddiwrnod y Refferendwm yno. Mae'r angen am weddi yn para, ac yn fwy o bosibl wedi'r hyn a ddigwyddodd ddydd Sul.

Pa fath o wlad sy'n awdurdodi'r hyn a welwyd? Pa fath o lywodraeth sy'n gorchymyn ei heddlu milwrol i ymosod ar bobl am fwrw pleidlais? Pa fath o Arlywydd (neu Brif Weinidog) sy'n cyfiawnhau'r pastynu a'r dyrnu trwy fynnu bod yr heddlu hwnnw wedi gweithredu'n rhesymol ac addfwyn? Pa fath o frenin all annerch ei genedl heb ddweud yr un gair am y cannoedd o ddinasyddion o bob oed a anafwyd? A pha fath o gymuned ryngwladol all ddewis bod yn dawel gan fynnu mai ymyrryd ym materion mewnol gwlad arall fyddai beirniadu'r trais a gafwyd yn enw cyfraith a threfn gwladwriaeth Sbaen y Sul diwethaf?

Y digwyddiad arall a'n brawychodd ddydd Sul oedd y lladdfa ddychrynlyd yn Las Vegas pan laddwyd 58 o bobl ac yr anafwyd cannoedd eraill. Pa fath o wlad sy'n dal i fynnu, er gwaethaf y degau o filoedd a leddir â'r gwn bob blwyddyn, mai'r hawl i fod yn berchen ar wn yw un o hawliau pwysicaf a mwyaf sylfaenol ei phobl?

Yr hyn sy'n gyffredin i'r ddwy wlad yw'r ymlyniad wrth ddeddf. Mae Llywodraeth Sbaen yn cyfiawnhau'r trais am fod y refferendwm yn groes i ddeddf a chyfansoddiad y wlad. Ac i

Gofalaeth Fro'r Llechen Las

Cefnywaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch (P), Llanberis
Nant Padarn A), Llanberis
Rehoboth (P), Nant Peris
Bethlehem (A), Talybont
Carmel (A), Llanllechid

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Balm o Salm



'Y mae Duw'n adnabyddus yn Jwda, a'i enw'n fawr yn Israel; y mae ei babell wedi ei gosod yn Salem, a'i gartref yn Seion. Yno fe faluriodd y saethau tanllyd, y darian, y cleddyf a'r arfau rhyfel. Ofnadwy_wyt ti, a chryfach na'r mynyddoedd tragwyddol. Ysbeiliwyd y rhai cryf o galon, y maent wedi suddo i gwsg, a phallodd nerth yr holl ryfelwyr. Gan dy gerydd di, O Dduw Jacob, syfrdanwyd y marchog a'r march' (Salm 76:1-6).

Heddiw

Gwasanaethir yn Capel Coch am 10.00 a 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch.

Gwasanaethir yn yr oedfa yn Neiniolen am 5.00 o'r gloch gan y Parchg Eifion Wyn Williams, Llanfairfechan.

Bydd Ysgol Sul yn Llanllechid am 10.30 o'r gloch, ac am 5.00 o'r gloch cynhelir Oedfa Ddiolchgarwch yng nghwmni plant yr Ysgol Sul a'r ieuenctid.

Gwasanaethir yn Nhalybont am 2.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

Nid oes oedfa yn Nant Peris heddiw.

Cofion

Anfonwn ein cofion at bawb sydd heb fod yn dda, ac yn arbennig at bawb sy'n methu â dod i'r oedfa ar hyn o bryd.



Cynhelir Gwasanaeth Comisiynu Catrin Hampton yn Weithiwr Plant, Ieuenctid a Theuluoedd Cynllun Efe yn Capel Coch am 7.00 o'r gloch, nos Lun, Hydref 23. Bydd yr oedfa yn gyfle i ni ddod at ein gilydd i gyflwyno Catrin a'r gwaith i ofal Duw. Bydd yno gynrychiolwyr o eglwys Caersalem, Caernarfon a Scripture Union Cymru sydd erbyn hyn yn cydweithio â Chynllun Efe i gynnal y swydd hon.

Bocs bwyd

Mae trefnwyr Banc Bwyd Caernarfon yn diolch unwaith eto am y cyfraniadau diweddaraf a anfonwyd o Capel Coch.

Gallwch roi'r bwydydd unrhyw bryd yn y bocs casglu sydd yng nghyntedd Capel Coch. Diolch am bob cyfraniad.

CIC

Cynhelir CIC yn Capel Coch nos Wener nesaf, Hydref 13 am 7.00 o'r gloch.

Bore coffi

Cynhelir y Bore Coffi misol yn festri Capel Coch rhwng 10.30 a 12.00 o'r gloch, ddydd Mawrth, Hydref 10 er budd Cronfa Adnoddau'r Capel.

Agor y Llyfr



Byddwn yn ail gychwyn ymweliadau 'Agor y Llyfr' ag Ysgol Gwaun Gynfi, Deiniolen fore Gwener yr wythnos hon. Mae'r tîm bychan yn mynd i'r Ysgol bob mis i gyflwyno stori o'r Beibl yn y Gwasanaeth boreol. Mae'r cyfan yn syml iawn gan mai dilyn sgript sydd wedi ei baratoi a wnawn, gyda'r mymryn lleiaf o actio. Ond does dim rhaid i bawb actio hyd yn oed gan fod digon o ddarnau i'w darllen yn unig. Os oes unrhyw un ohonoch am wybod rhagor am waith 'Agor y Llyfr' cysylltwch â'r Gweinidog. Byddem yn falch iawn o gael un neu ddau o aelodau ychwanegol i'r tîm.

Cwrs Ieuenctid

Blynyddoedd Ysgol 7-11
Yng Ngholeg y Bala
Nos Wener - Dydd Sul
Tachwedd 3-5, 2017

Holwch y Gweinidog am fanylion am y Cwrs Ieuenctid nesaf hwn a gynhelir yng Ngholeg y Bala yn ystod gwyliau hanner tymor yr Ysgol y mis nesaf os ydych am i rywun gael cyfle i fynd yno.

Apel Rohingya

Yn ystod yr wythnos cyhoeddodd DEC, Pwyllgor Argyfyngau Brys y Deyrnas Unedig (Disaster Emergency Committee) apel newydd i godi arian i helpu dros hanner miliwn o bobl sydd wedi ffoi o'u cartrefi yn nhalaith Rakhine, Myanmar i Bangladesh dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae pobl y Rohingya yn ffoi rhag y trais a'r erlid creulon y maent yn ei ddioddef. Ond er iddynt gael croeso dros y ffin yn Bangladesh mae amgylchiadau difrifol yn eu disgwyl yno, fel y gwelsom trwy'r lluniau o'r gwrsylloedd lloches sydd ar y teledu ar hyn o bryd.

Mae'r elusennau Cristnogol cyfarwydd Tearfund a Chymorth Cristnogol ymhlith y tair elusen ar ddeg sy'n rhan o DEC; ac mae'n siwr y bydd cefnogwyr y ddwy elusen yn awyddus i gyfrannu at yr apêl hon, fel yr apeliadau blaenorol a wnaed yn enw DEC.

Mae modd cyfrannu at yr apêl argyfwng ar wefan DEC, dros y ffôn, trwy neges destun neu trwy'r post.

Mae'r manylion llawn am y gwahanol ffyrdd o gyfrannu ar wefan DEC, a chaiff sylw cyson ar hyn o bryd ar y teldedu a'r radio.

Cymdeithas Undebol

Yn y Gymdeithas Undebol yn Capel Coch nos Fawrth cafwyd sgwrs ddiffr gan Mr Ken Jones am y Parchg R. Bryn Williams. Soniodd am ei fagwrfa gynnar yng Nghymru cyn i'w deulu ymfudo i Batagonia, lle treuliodd ei lencyndod cyn dychwelyd i Gymru i barhau â'r addysg. Yn naturiol, rhoddwyd cryn sylw yn y sgwrs i'r blynyddoedd a dreuliodd yn gweinidogaethu yn Llanberis, yn Capel Coch a Hebron. Diolchwyd i Ken gan Mrs Gwen Jones.